

### *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

Mon Awel, Lon Ysgubor Wen, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1HS.  
Ffon: 01286 676462 e-bost: cyngorcymunedllanllyfni@gmail.com

#### **Cofnodion cyfarfod arbennig Cyngor Cymuned Llanllyfni a gynhaliwyd dros y we, Nos Lun y 29ain o Fehefin 2020 am 7.00 yh.**

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Iona Wyn Jones , Dylan Herbert – Penygroes; Dafydd Thomas – Nebo; Gwyndaf Roberts, Hefina M W Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Sian Dafydd, Gareth Lloyd Jones – Talysarn; Ffion Jones - Nantlle / **Ymddiheuriadau:** Justin Davies, Erfyl Williams – Penygroes.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant.
- 3. Goleuadau Nadolig** Cadrnhau yr hyn a drafodwyd dros ebost – cyflwr rhai o'r goleuadau presennol yn peri gofid i'r Cyngor. **Penderfynwyd** y dylid gofyn i rywun cymwys eu tynnu i lawr ar fyrder a'u profi i weld weld os ydynt yn dal i weithio ac yn ddiogel. Gofynwyd i Gwyndaf gysylltu efo contractiwr a cheisio trefnu'r gwaith. Roedd y Cynghorwyr yn gobeithio y byddai'r goleuadau mwyaf newydd yn addas ar gyfer eu gosod ar y polion trydan fel yn y Cynllun Goleuadau Nadolig, drwy ddefnyddio bracedi pwrpasol. Bydd angen storio'r goleuadau hefyd nes bod eu angen eto, a chynnigwyd y Neuadd Goffa ym Mhenhygroes fel lleoliad. Gwyndaf yn hapus i gysylltu gyda chontractwyr i holi am ymgymeryd a'r gwaith o dynnu'r goleuadau.
- 4. Cyfrifon 2019-20.** Roedd y Cynghorwyr wedi cael cyfle ymlaen llaw i edrych drwy'r cyfrifon. Fe'u cafwyd yn gywir gan yr Archwilydd Mewnol, ac fe ddarllenwyd yr adroddiad a gyflwynwyd ganddynt. Pawb yn hapus. **Penderfynwyd** cymeradwyo cyfrifon 2019-20. Gareth yn datgan y byddai yn edrych os oes meddalwedd cyfrifo ar gael sydd yn addas i Gyngor Cymuned, ac hefyd edrych ar y fformat sydd yn cael ei ddefnyddio. Cytunwyd y byddai o fantais adolygu at pan fydd y Clerc newydd yn dechrau.
- 5. Ystafelloedd Newid Talysarn** Cyfarfod wedi ei gynnal rhwng Cyngor Gwynedd, cynrychiolaeth o Tim Pel Droed y Celts, a chynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned. Sian yn adrodd yn ol. O'r drafodaeth, oherwydd bod cyn lleied o amser ar ol ar y brydles sydd rhwng Cyngor Gwynedd a'r Cynghor Cymuned, yn lle is-osod i'r Tim Pel Droed, cynnigwyd y byddent yn cael prydles newydd sbon yn uniongyrchol efo Cyngor Gwynedd. Byddai'r Cyngor Cymuned yn ymrwymo i ddogfen ildio efo Cyngor Gwynedd, a byddai prydles newydd yn cael ei llunio rhwng y Tim Pel Droed a Cyngor Gwynedd. Dywedodd Sian y byddai ffi ar gyfer gwneud y gwaith cyfreithiol yma. **Penderfyniad** y Cyngor llawn oedd cytuno i'r cynigion yma, a thalu'r ffi gyfreithiol (amcan o £375). Sian am wneud ymholiadau pellach.
- 6. Estyniad MacPelah** Heb gael ateb gan Mark Balaam hyd yma. **Penderfynwyd** edrych ar y cynllun gwreiddiol a gweithio oddi ar y cynllun safle sydd gennym ni o'r rhan gyntaf o'r gwaith a hysbysebu. Pawb yn gytun.
- 7. Rhifau Beddi** Y llecyn sydd ym mhen bellaf gwaelod bloc 'I' a nad oedd yn gallu cael ei ddefnyddio tra'r oedd y gwaith codi waliau yn digwydd, ond erbyn rwan mae yn rhydd i gladdu ynddo – gan bod y rhifau bedd yn ddilynol o'r res gyntaf i'r nesaf ac yn y blaen yn bloc I, **pendderfynwyd** mai'r ffordd orau i beidio a chreu dryswch yn y dyfodol oedd i roi J ar y beddi yn y llecyn.
- 8. Cyfweliadau Swydd Clerc.** Roedd pawb yn gytun bod yn rhaid symud pethau ymlaen mor fuan a phosib gan bod y Clerc bresennol yn parhau i fod yn y swydd er i'r cyfnod rybudd a roddodd i ymddiswyddo wedi pasio ers diwedd Mawrth. Roedd y Clerc yn awyddus i'r Cyngor benodi rhywun yn ei lle gan ei bod yn gweithio llawn amser o adref yn ogystal a chariot pethau ymlaen efo'r Cyngor Cymuned. **Penderfynwyd** ar banel cyfweld, sef Barry, Sian, Dafydd, OP, Iona a Gareth. Gofynwyd i'r Cynghorwyr eraill yrru cwestiynau i'r Panel Cyfweld i'w cysidro ar gyfer y cyfweliadau. Roedd Sian am ebostio'r ymgeiswyr er mwyn ceisio ail-drefnu cyfweliadau, a chynnal cyfweliadau dros y we.
- 9. Seddi Gwag** Mae dwy sedd wedi dod yn wag ar y Cyngor gan i'r Cynghorwyr fethu mwy na chwech cyfarfod yn olynol – mae un sedd ym Mhenhygroes a'r llall yn Nhalysarn. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn hysbysebu'r seddi yn wag.
- 10. Mater Arall a Godwyd** OP Huws nodi ei bod yn bwysig bod ffordd i ymwelwyr i'r Wyddfa gyfrannu at yr economi yng Ngwynedd, a bod yr egwyddor angen ei drafod. OP yn datgan y byddai'n rhoi y cynnig yma yn ysgrifenedig erbyn y cyfarfod blynyddol.